**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE/673/22

Mark Isherwood AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.cymru

1 Mawrth 2022

Annwyl Mark,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Chwefror mewn perthynas â'r Fframwaith Cyffredin ar gyfer caffael cyhoeddus.

Mae fy ymateb i'ch cwestiynau isod:

## Cyffredinol

### 1. Pam mae angen fframwaith ar gyfer y maes polisi hwn?

Bwriad y Fframwaith yw diogelu buddiannau busnesau ledled y DU drwy ystyried unrhyw wahaniaethau rhwng arferion caffael y pedair gwlad.

Mae'r Fframwaith yn darparu mecanwaith i'r pedair gwlad yn y DU barhau i ddatblygu a chyhoeddi eu polisïau a'u deddfwriaeth eu hunain ar gyfer caffael, wrth ar yr un pryd gydnabod effeithiau unrhyw wahaniaethau.

Mae'r Fframwaith yn nodi'r mecanweithiau ar gyfer ymdrin â materion polisi domestig a rhyngwladol mewn perthynas â chaffael cyhoeddus, ac mae'n cyd-fynd â Fframwaith Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael gan Lywodraethau.

Gan nad yw caffael yn fater a gedwir yn ôl, mae'r Fframwaith yn gytundeb pwysig i ddiogelu ein buddiannau o fewn y DU ac yn rhyngwladol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

2. **Nod Llywodraeth Cymru yw hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol ym maes caffael. Pam nad yw'r egwyddor ar gyfer rheoli adnoddau a rennir yn berthnasol i'r Fframwaith hwn?**

   Nid yw rheoli adnoddau a rennir yn rhan o sail resymegol y Fframwaith Cyffredin hwn, gan mai mecanwaith yn unig ydyw, rhwng pedair gwlad y DU, ar gyfer gwneud ei gilydd yn ymwybodol o unrhyw bolisïau newydd er mwyn ystyried effeithiau unrhyw wahaniaethau posibl. Felly, nid yw'r cyfle i rannu adnoddau yn berthnasol.

**Y lle ar gyfer gwahaniaethau**

3. **Sut bydd y llywodraethau'n penderfynu a yw cynnig ar gyfer polisi neu ddeddfwriaeth o fewn cwmpas prosesau'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau?**

   Bydd arweinwyr polisi pob gwlad yn asesu effaith eu cynigion caffael cyhoeddus ar y gwledydd eraill ar lefel ddomestig (neu lle mae arwyddocâd ehangach yn bosibl). Os oes effaith, yna mae o fewn cwmpas y Fframwaith a bydd y gwledydd eraill yn cael eu hysbysu ac yn cael cyfle i drafod unrhyw bryderon yng nghyfarfod misol Gweithgor y Fframwaith Cyffredin.

4. **Faint o le ar gyfer gwahaniaethau y bydd y Fframwaith yn ei ganiatáu? A yw hyn yn ehangach neu'n gulach na'r lle ar gyfer gwahaniaethau o dan gyfraith yr UE?**

5. **Os yw'r lle ar gyfer gwahaniaethau yn wahanol i'r lle ar gyfer gwahaniaethau o dan gyfraith yr UE, pam?**

   Ein dealltwriaeth ni yw bod y lle ar gyfer gwahaniaethau'r un fath â'r lle ar gyfer gwahaniaethau o dan gyfraith yr UE.

6. **A fydd Bil Partneriaeth a Chaffael Cymdeithasol arfaethedig Llywodraeth Cymru yn destun unrhyw ymgynghoriad neu benderfyniadau drwy'r Fframwaith?**

   Mae cynrychiolwyr o'r tair gwlad arall wedi cael eu hysbysu am y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus. Cylch gwaith y Fframwaith Cyffredin yw ystyried effaith unrhyw wahaniaethau rhwng polisïau ar y gwledydd eraill – ni fwriedir iddo gael ei ddefnyddio at ddiben ymgynghori na gwneud penderfyniadau.

7. **Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen â diwygiadau i gyfraith caffael drwy Fil Caffael arfaethedig y DU. Pa asesu mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith dargyfeirio o gyfraith caffael yr UE a ddargedwir ar randdeiliaid yng Nghymru?**

Er mwyn deall y ffordd orau ymlaen ar gyfer diwygio caffael yng Nghymru, cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu â'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i ddeall eu hawydd i weld digwyddiadau posibl i gaffael yng Nghymru a'r cynigion a amlinellir ym Mhapur Gwyrdd Llywodraeth y DU. Nododd rhanddeiliaid o Gymru eu bod yn awyddus i weld caffael yn cael ei ddiwygio.

Ar hyn o bryd mae swyddogion polisi caffael a'r tîm cyfreithiol yn asesu cyfarwyddiadau polisi Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil, mewn perthynas â newidiadau i arferion presennol a allai gael effaith bosibl ar Randdeiliaid yng Nghymru. Caiff unrhyw bryderon eu bwydo'n ôl i Lywodraeth y DU fel y gellir eu hystyried wrth ddrafftio cymalau'r Bil.

8. **Pa asesu rydych wedi'i wneud o oblygiadau Bil Rheoli Cymorthdaliadau'r DU ar gyfer caffael cyhoeddus yng Nghymru?**

Fel y mae pethau ar hyn o bryd, yn ôl pob golwg ni fydd goblygiadau ar gyfer caffael cyhoeddus yng Nghymru yn deillio o'r Bil Rheoli Cymorthdaliadau. Fodd bynnag, mae llawer o'r darpariaethau yn y Bil yn agored i newid drwy ddefnyddio is-ddeddfwriaeth, a bydd llawer o fanylion ynghylch sut bydd y Bil yn gweithio'n ymarferol yn cael eu cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth a chanllawiau, Felly, gallai'r sefyllfa hon newid a bydd yn cael ei hadolygu'n gyson.

9. **Byddai'r Fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru hysbysu'r llywodraethau eraill dri mis cyn cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol neu wneud is-ddeddfwriaeth. Beth yw goblygiadau hyn o ran cymhwysedd Llywodraeth Cymru a'r Senedd a pha effaith y gallai gwahaniaethau ei chael ar bolisïau caffael mewn ardaloedd trawsffiniol?**

Nid yw'r Fframwaith yn atal nac yn llesteirio cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru i weithredu polisïau newydd nac ar gymhwysedd y Senedd i basio deddfwriaeth. Yn y gorffennol, bu lefelau isel o wahaniaeth rhwng polisïau caffael rhwng y pedair gwlad heb unrhyw effaith andwyol ar awdurdodau contractio na chyflenwyr, ac ni ddisgwylir i hyn newid. Fodd bynnag, gyda'r Fframwaith ar waith bydd gwahaniaethau, gan gynnwys rhwng polisïau caffael mewn ardaloedd trawsffiniol, bellach yn cael eu hystyried lle nad ydynt wedi cael eu hystyried yn y gorffennol.

**Rhwymedigaethau rhyngwladol**

10. **Pa rwymedigaethau rhyngwladol sy'n berthnasol i'r Fframwaith hwn, ac os oes angen diwygio'r Fframwaith yn y dyfodol i adlewyrchu rhwymedigaeth ryngwladol newydd, pa broses fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer y diwygio hwn?**

Pan fydd y DU yn negodi ac yn ymrwymo i Gytundebau Masnach Rydd newydd sy'n cynnwys penodau caffael, ac yn gweithredu'r cytundebau hynny, mae'r rhwymedigaethau caffael y cytunwyd arnynt yn cael eu cynnwys yn y Cytundebau eu hunain ac nid yn y Fframwaith Cyffredin. Yna mae unrhyw Rwymedigaethau

Rhyngwladol newydd yn cael eu hymgorffori mewn Rheoliadau Caffael Domestig os oes angen gwneud hynny. Mae'r broses adolygu hon y tu allan i gylch gwaith y Fframwaith. Ni fyddai angen diwygio'r Fframwaith pan gytunir ar Gytundeb Masnach newydd.

Bydd y Fframwaith yn sicrhau, wrth ddatblygu polisïau newydd, fod Rhwymedigaethau Rhyngwladol yn cael eu hystyried.

Mae amserlen adolygu'n cael ei chynnwys yn y Fframwaith. Disgwylir y bydd hon yn rhoi cyfleoedd ychwanegol i randdeiliaid a'r Senedd gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu ac esblygu fframweithiau.

Os gwneir newidiadau i'r Fframwaith, bydd pwyllgorau'r Senedd yn cael eu hysbysu am y rhain er mwyn iddynt gyflawni lefel y gwaith craffu y maent yn credu sy'n briodol ac yn angenrheidiol.

**11. A allLlywodraeth Cymru gadarnhau pryd y disgwylir Concordat Cysylltiadau Rhyngwladol wedi'i ddiweddaru rhwng y pedair llywodraeth ac a oes unrhyw risgiau i'r fframwaith os na chytunir ar hyn?**

Ym mis Ionawr 2022, cytunodd Llywodraeth Cymru, ynghyd â Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, i ddefnyddio'r pecyn o ddiwygiadau a ddeilliodd o'r Cydadolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, fel y sail ar gyfer cynnal cysylltiadau rhynglywodraethol. Er nad yw'r pecyn diwygio yn disodli'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth presennol ar Ddatganoli yn llwyr, rhagwelir y bydd y ddogfen hon yn dod yn amherthnasol i raddau helaeth. Yn y dyfodol, rydym yn gobeithio y bydd yr Adolygiad a'r pecyn o ddiwygiadau yn cael eu codio mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd ac, os bydd pob llywodraeth yn cytuno, yn cael ei seilio ar statud. Am y tro, bydd y gwaith o lunio polisïau rhyngwladol yn cael ei ddatblygu yn unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth presennol ar gyfer Datganoli a'r Concordat Cysylltiadau Rhyngwladol cysylltiedig. Bydd rhwymedigaethau rhyngwladol yn cael eu gweithredu yn unol â'r cytundebau hyn. Yn hyn o beth, bydd y gwahanol bartïon yn defnyddio yn awtomatig unrhyw Goncordat Cysylltiadau Rhyngwladol wedi'i ddiweddaru, a chanlyniadau ehangach y Cydadolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, yn sail ar gyfer unrhyw ystyriaethau rhyngwladol o'r fath.

**12. Sut bydd fforymau rhynglywodraethol a sefydlwyd gan y Fframwaith yn rhyngweithio â grwpiau rhyngweinidogol ar fasnach ac â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE?**

Mae'r maes polisi a gwmpesir gan y Fframwaith Cyffredin hwn yn cyd-fynd â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE (TCA) ac felly gall pwyllgorau arbenigol perthnasol y TCA neu'r Cyngor Partneriaeth ystyried pynciau sy'n berthnasol i'r fframwaith o bryd i'w gilydd. Pan fydd agenda cyfarfod rhwng y DU a'r UE yn cynnwys eitem sy'n ymwneud â gweithredu mewn maes cymhwysedd datganoledig, bydd Llywodraeth y DU yn hwyluso presenoldeb Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ar lefel debyg i gynrychiolwyr Llywodraeth y DU, gyda disgresiwn terfynol o ran pwy

fydd yn cynrychioli'r DU yn fater i gyd-gadeirydd y DU. Bydd Llywodraeth y DU yn trafod â'r llywodraethau datganoledig mor drwyadl ag y bo modd i baratoi ar gyfer y cyfarfodydd hyn, ni waeth ydynt yn bresennol neu beidio, ac ar yr holl faterion gweithredu perthnasol.

**13. Pa atebolrwydd, os o gwbl, y mae'r Fframwaith yn ei ddarparu i Lywodraeth Cymru os nad yw o blaid diwygiad Llywodraeth y DU i'w hamserlenni ar gyfer Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael gan Lywodraethau?**

Mae Llywodraeth y DU yn cydweithio â Llywodraeth Cymru a'r gwledydd eraill ar lefel swyddogol ar amserlenni'r Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau yn unol â'r Fframwaith Cyffredin. Fodd bynnag, pe bai rheswm dros wrthwynebu Llywodraeth y DU ynghylch diwygiad i amserlenni Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael gan Lywodraethau, y Fframwaith Cyffredin yw’r fforwm ar gyfer trafod materion ac, os na ellir dod i gytundeb, gellir uwchgyfeirio’r mater drwy'r weithdrefn datrys anghydfodau.

**Trefniadau rhwng y DU a'r UE**

**14. A all Llywodraeth Cymru egluro sut bydd Gweithgor y Fframwaith a'r Grŵp Cyswllt yn cael eu hysbysu am gyfarfodydd rhwng y DU a'r UE mewn meysydd a gwmpesir gan y fframwaith?**

Mae cytundeb y Fframwaith Cyffredin yn nodi'n glir y trefniadau llywodraethu ar gyfer y TCA, lle bydd swyddogion o'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn cael eu gwahodd i fynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol sy'n ymdrin â materion cymhwysedd datganoledig, ac i gyfrannu at y cyfarfodydd hynny. Mae 'Cytundebau Rhyngwladol' yn eitem sefydlog ar agenda cyfarfod y Gweithgor, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gynnydd ar gytundebau masnach gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfodydd rhwng y DU a'r UE sydd wedi cael eu cynnal ac unrhyw faterion sy'n codi i'r grŵp eu trafod.

**15. Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE yn sefydlu nifer o bwyllgorau llywodraethu newydd. Pam nad oedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn bresennol yng nghyfarfod cyntaf ac unig gyfarfod y Pwyllgor Masnach Arbenigol ar Gaffael Cyhoeddus?**

Rhoddodd Swyddfa Cabinet y DU wybodaeth i'r Gweithgor ar 21 Gorffennaf 2021 am y Pwyllgor Masnach Arbenigol ar Gaffael Cyhoeddus. Wedyn ar 15 Medi, yng nghyfarfod y Gweithgor, trafodwyd yr agenda. Cafodd y drafodaeth hon ei chyfyngu i rannu gwybodaeth am ddeddfwriaeth arfaethedig a pholisïau caffael. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael ei hysbysu am y cyfle i fynychu'r cyfarfodydd hyn (cliciwch y ddolen hon i weld llythyr gan yr Arglwydd Frost). Fodd bynnag, ni wnaeth Llywodraeth Cymru dderbyn y cynnig y tro hwn gan yr ystyrid nad oedd unrhyw eitemau ar yr agenda a oedd yn gwneud ei phresenoldeb yn ofynnol.

**16. A all Llywodraeth Cymru gadarnhau bod canlyniadau'r cyfarfod hwnnw gyda'r UE wedi cael eu rhannu â Gweithgor y Fframwaith a'r Grŵp Cyswllt, ac os felly sut y gwnaed hynny?**

Adroddwyd am y canlyniad gan un o swyddogion Swyddfa Cabinet y DU yng nghyfarfod y Gweithgor ym mis Tachwedd 2021, a chafodd hyn ei gofnodi yn y cofnodion.

**17. A all Llywodraeth Cymru gadarnhau a fydd mecanweithiau'r fframwaith yn cael eu defnyddio i fonitro cyfraith caffael yr UE, ac a yw Llywodraeth Cymru yn cyflawni hyn ei hun neu mewn partneriaeth â llywodraethau eraill?**

Mae mecanwaith anuniongyrchol ar gyfer ystyried cyfraith caffael yr UE drwy'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE (TCA), a chyfeirir at y TCA yn y Fframwaith yn 3.1 a 3.13. Os bydd unrhyw agwedd ar gyfraith caffael yr UE yn amharu ar y TCA yna byddai'n cael ei nodi yng nghyfarfodydd y Gweithgor fel maes o fewn cwmpas y Fframwaith.

**Llywodraethu a datrys anghydfodau**

**18. A ydych o'r farn bod y mecanwaith datrys anghydfodau yn ddigon cadarn at ei ddiben arfaethedig, a sut bydd y fframwaith yn sicrhau bod anghydfodau'n cael eu datrys mewn modd amserol ac nad yw penderfyniadau'n cael eu gohirio?**

Ystyrir bod y mecanweithiau datrys anghydfodau yn gadarn ac yn gymesur. Mae'r rhain wedi cael eu datblygu a'u cymeradwyo ar cyd gan y pedair gwlad. Mae'r mecanwaith datrys anghydfodau yn caniatáu i anghytundebau gael eu uwchgyfeirio i Weinidogion, lle bo hynny'n briodol ac yn angenrheidiol, i'w datrys mewn modd amserol.

**Tryloywder ac atebolrwydd**

**19. A wnaeth Llywodraeth Cymru ymgysylltu ag unrhyw randdeiliaid yng Nghymru wrth ddatblygu'r fframwaith? Sut mae'r fframwaith yn adlewyrchu ymateb rhanddeiliaid?**

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid technegol gydag Awdurdodau Contractio yng Nghymru ym mis Hydref 2020. Rhoddodd hyn gyfle i randdeiliaid gyfrannu eu harbenigedd.

Roedd lefel yr ymgysylltu'n isel, oherwydd dosbarthiad anstatudol y fframwaith a chyfyngiadau COVID-19, ac roedd yn cynnwys ymarfer ymgysylltu ar-lein a gofyn am adborth ysgrifenedig wedyn.

Roedd yr adborth a dderbyniwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn bwydo i drafodaethau rhynglywodraethol ac adrannol i lywio'r gwaith o ddatblygu fframweithiau cyffredin ehangach.

**20. Sut bydd y Senedd a rhanddeiliaid yn cael y gwybodaeth ddiweddaraf am weithrediad parhaus y fframwaith ac yn cyfrannu at y broses adolygu a diwygio?**

**21. Os gwneir newidiadau yn y dyfodol, sut caiff y Senedd ei hysbysu? Pa weithdrefn graffu fydd yn berthnasol i'r newidiadau?**

Mae ymrwymiad i adrodd yn gyson ar Fframweithiau ar ôl iddynt gael eu terfynu, ond mae'r manylion yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Mae amserlen adolygu'n cael ei chynnwys ym mhob Fframwaith. Disgwylir y bydd hon yn rhoi cyfleoedd ychwanegol i'r Senedd gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu ac esblygu'r Fframweithiau.

Bydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol yn monitro cynnydd y rhaglen Fframweithiau er mwyn cyflawni'r rôl a roddir iddo gan y Cydadolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol i 'Oruchwylio'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin a'i threfniadau llywodraethu'. Y disgwyl yw y bydd adroddiadau ar Fframweithiau yn ddogfennau cyhoeddus, ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan Weinidogion portffolio, a byddant ar gael i'r pwyllgorau perthnasol yn y pedair gwlad yn ogystal â'r rhanddeiliaid perthnasol. Yn ogystal, mae ymrwymiad i hysbysu'r Senedd:

- am anghydfodau a godir drwy'r Fframweithiau
- pan fydd anghydfodau'n cael eu huwchgyfeirio i Weinidogion
- am unrhyw ddeddfwriaeth newydd sy'n effeithio ar y Fframweithiau
- am unrhyw geisiadau am eithriad o dan UKIMA

ac i hysbysu rhanddeiliaid:

- am adolygiadau sydd ar y gweill ac ystyried argymhellion gan y Senedd a rhanddeiliaid fel rhan o'r un broses adolygu

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol